# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **16 Medi 2025** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Craig ab Iago** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Bethan Richardson, Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

---

### 1. Y penderfyniad a geisir

1.1 Cefnogi Prif Adroddiad ac Adroddiad Technegol Cynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd, gan ddeall bod y Camau Gweithredu ac Argymhellion a neilltuwyd i Gyngor Gwynedd yn amodol ar sicrhau a chynnal y cyllid angenrheidiol.

1.2 Bydd angen datblygu mecanwaith llywodraethu a monitro ar gyfer y Camau Gweithredu ac Argymhellion ar y cyd ag Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol eraill gogledd Cymru, a dod â'r trefniadau hynny yn ôl i'r Cabinet i'w cymeradwyo.
Dylai'r fecanwaith arwain at:

- Cytuno ar strwythur llywodraethu
- Alinio Strategaeth Ynni Rhanbarthol Gogledd Cymru (a'r cynllun gweithredu) â'r Cynllun Ynni Ardal Leol
- Alinio'r Cynllun Ynni Ardal Leol gyda chynlluniau ynni cenedlaethol all gael eu datblygu gan NESO (National Energy System Operator) ar ran Llywodraeth Cymru
- Nodi dangosyddion perfformiad allweddol
- Ffurfio Grŵp Llywio Rhanbarthol

### 2 Y Rheswm Dros yr Angen am Benderfyniad

2.1 Mae Cyngor Gwynedd, drwy ein Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf wedi gosod uchelgais y "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."

2.2 Ym Mawrth 2021 cymeradwyodd Senedd Cymru darged sero net Cymru gyfan ar gyfer 2050, gyda thargedau interim o leihad mewn allyriadau carbon o 63% erbyn 2030 a 89% erbyn 2040. Comisiynodd Llywodraeth Cymru raglen i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) er mwyn cyfrannu at y targedau cenedlaethol yma.

## 3. Cefndir

3.1 Mae Cynllun Ynni Ardal Leol Cyngor Gwynedd (CYAL) yn edrych ar y dulliau mwyaf effeithlon a chost effeithiol o ddadgarboneiddio system ynni gyflawn i Wynedd erbyn 2050. Mae'r CYAL yn edrych ar pob agwedd o'r systemau ynni lleol: beth yw'r galw am ynni, sut mae'n cael ei gynhyrchu a sut mae'n cael ei ddosbarthu.

3.2 Paratowyd y CYAL hwn gan Arup, yr Ymddiriedolaeth Garbon, ac Afallen, ar ran Cyngor Gwynedd ac fe'i cydlynwyd ar draws rhanbarth gogledd Cymru gan Uchelgais Gogledd Cymru. Ariannwyd datblygiad y Cynlluniau Ynni Ardal Leol ar draws Cymru gan Lywodraeth Cymru.

3.3 Er mwyn sicrhau cysondeb, mae pob CYAL wedi ei ddatblygu yn dilyn dull a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac roedd yn seiliedig ar fodelu, mewnwelediadau o ddata, a chynlluniau a syniadau rhanddeiliaid, gan gynnwys trwy weithdai. Mae rhagor o wybodaeth am y broses o ymgynghori â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r CYAL i'w gweld ar dudalen 37 o'r prif gynllun ac ym mhennod 2 o'r Adroddiad Technegol (tud. 23).

3.4 Mae'r broses o ddatblygu CYAL wedi arwain at greu dwy ddogfen sydd wedi eu hanelu at ddwy gynulleidfa wahanol:

**Cynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd** - Atodiad 1.

At sylw y cyhoedd, busnesau, llunwyr polisïau ac ati. Mae hon yn cynnwys amlinelliad o'r holl ddata a chynlluniau gweithredu. Gelwir y 'prif adroddiad'.

**Adroddiad Technegol Cynllun Ynni Ardal Leol** - Atodiad 2.

At sylw Awdurdod Lleol, rhanddeiliaid technegol (ee gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu, rheolwyr ynni, cynllunwyr). Mae hon yn cynnwys graffiau, y siartiau, y mapiau a'r data ategol ar gyfer y canlyniadau a gyhoeddir yn y CYAL. Mae hefyd yn cynnwys rhagor o fanylion am y dull o fodelu a'r gwaith dadansoddi senarios. Gelwir yr 'Adroddiad Technegol'.

3.5 Y cam cyntaf i ddatblygu Cynlluniau Ynni Lleol oedd creu cynlluniau ynni rhanbarthol, ac fe gyhoeddwyd Strategaeth ynni gogledd Cymru fis Tachwedd 2021. Ail gam y broses yw bod 22 CYAL yn cael eu datblygu ar gyfer pob sir yng Nghymru er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth rhwng anghenion lleol. Bydd pob un o'r cynlluniau unigol yn eu tro yn bwydo'r broses o greu un Cynllun Ynni Cenedlaethol fydd i'w ddatblygu yn enw Lywodraeth Cymru.

### 3.6 Cynnwys y Cynllun Ynni Ardal Leol

3.7 Y weledigaeth yng Nghynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd (CYAL) yw:

> 'Datblygu system ynni carbon sero net leol ar gyfer Gwynedd, sy'n annog datblygiad ffynonellau ynni fforddiadwy a dibynadwy er budd ein cymunedau lleol. Bydd hyn yn cefnogi'r broses o bontio i economi ffyniannus a chadarn, ac yn diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ar yr un pryd.'

3.8 Defnyddiwyd y ffin ddaearyddol ar gyfer Cyngor Gwynedd i bennu'r ffin ar gyfer y CYAL. Nid Cynllun ar gyfer Cyngor Gwynedd yn unig yw hwn, mae'n gynllun ar gyfer Gwynedd gyfan ac felly mae angen iddo hefyd gael ei berchnogi a'i weithredu gan ystod eang o randdeiliaid o bob sector.

3.9 Mae cyfyngiadau, search hynny, ar y data sydd wedi ei gasglu a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol o fewn y cynllun. Mae'r isod wedi eu heithrio:

- Asedau ynni presennol ac yn y dyfodol sy'n debygol o gael eu goruchwylio gan lywodraeth ganolog, ee gwynt ar y môr, batris ar raddfa grid, SMR hydrogen

- Ffynonellau ynni nad ydynt o allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Ngwynedd (ee. allyriadau o brosesau diwydiannol, defnydd tir amaethyddol a da byw)

- Ynni a ddefnyddir ar gyfer morgludo, hedfan a rheilffyrdd

- Generaduron trydan mawr sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith trawsyrru a/neu dros 100 MW, ee. Gorsaf Bŵer Dinorwig

Ond mae prosiectau *hyd at* 100MW, megis prosiect storfa bwmp Glyn Rhonwy wedi cael eu cynnwys yn y broses modelu defnydd i ddangos pwysigrwydd ynni'r llanw.

3.10 Canlyniad ymgynghori â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r cynllun oedd cytundeb y byddai'r CYAL yn dewis edrych at senario 'Ynysu: canolbwyntio ar y gymuned' wrth fodelu posibiliadau'r dyfodol. Mae'r senario hwn yn ystyried system ynni nad yw'n mewnforio trydan ar draws ffin yr awdurdod lleol, ond sy'n gallu allforio, gan geisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy neu garbon isel sy'n eiddo i'r gymuned, a chyflwyno uchelgais i ddatgarboneiddio'r system ynni ar gyfradd gyflymach.

## 4 Gweithredu ac Ariannu'r Cynllun Ynni Ardal Leol

4.1 Mae'r wybodaeth am pwy sy'n gyfrifol am weithredu gwahanol gamau gweithredu (neu brosiectau), a'r amserlen, i'w gweld yn Adran 4 – Camau Gweithredu ac Argymhellion.

4.2 Bydd rôl y Cyngor yn amrywio ym mhob cam gweithredu. Mae rhai camau gweithredu'n galw ar y Cyngor i weithredu wrth gyflwyno rhaglenni, tra bo camau gweithredu eraill yn cynnwys y Cyngor fel cydlynydd rhwng nifer o sefydliadau. Ond mae'r rhan helaethaf o'r Camau Gweithredu, 54 allan o 75, yn gyfrifoldebau ar sefydliadau ar wahân i'r Cyngor, megis Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, cwmnïau cynhyrchu a dosbarthu ynni (*utilities*), cymdeithasau tai, ac eraill.

4.3 Mae'r 'Cynigion ynni - Cynllun ar dudalen – 2030' ar dudalen 17 o'r brif ddogfen yn dangos y parthau daearyddol ble y mae potensial i ddatblygu darpariaeth cynhyrchu ynni, ac y gall astudiaethau peilot gael eu cynnal. Byddai cynllunio a gweithredu'r astudiaethau peilot yma yn ddibynnol ar ymgynghoriad â phartneriaid a chymunedau lleol. Mae costau'r astudiaethau yn debygol o syrthio rhwng £121.56M a £590.70M. Byddai canfod yr incwm hwn, a'i wario, yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng yr holl bartneriaid.

4.4 Bydd manylder y buddsoddiad angenrheidiol er mwyn gwireddu'r camau gweithredu a nodwyd yn Adran 4 o'r CYAL yn destun gwaith pellach ar y cyd â rhanddeiliaid. Bydd angen cynnal astudiaethau busnes er mwyn mesur faint o adnoddau ariannol a staffio fydd ei angen ac o ble y daw'r buddsoddiad hwnnw, gan gynnwys ar gyfer y cynlluniau peilot y sonir amdanynt yn 4.3.

4.5 Dylai'r Cabinet nodi, er bod y CYAL yn nodi'r buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni newid i ddatgarboneiddio'r system ynni yng Ngwynedd erbyn 2050, nid yw'n ymrwymo'r Cyngor yn ariannol yn y cam cymeradwyo presennol.

## 5 Llywodraethu a Monitro

5.1 Bydd angen datblygu mecanwaith llywodraethu a monitro ar gyfer y Camau Gweithredu ac Argymhellion ar y cyd ag Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol eraill gogledd Cymru. Dylai'r fecanwaith arwain at:

- Cytuno ar strwythur llywodraethu

- Alinio Strategaeth Ynni Rhanbarthol Gogledd Cymru (a’r cynllun gweithredu) â’r Cynllun Ynni Ardal Leol
- Alinio’r Cynllun Ynni Ardal Leol gyda chynlluniau ynni cenedlaethol all gael eu datblygu gan NESO (National Energy System Operator) ar ran Llywodraeth Cymru
- Nodi dangosyddion perfformiad allweddol
- Ffurfio Grŵp Llywio Rhanbarthol

5.2 Fel trefniant dros dro, disgwylir i'r CYAL gael ei adolygu ymhen pum mlynedd, wrth i ni agosáu at 2030 a dyddiad targed carbon sero net y sector cyhoeddus.

5.3 At bwrpas monitro mewnol gan y Cyngor, awgrymir bod Panel CYAL yn cael ei sefydlu o blith swyddogion, fydd yn adrodd i’r Bwrdd Hinsawdd a Natur.

5.4 Bydd cyflawni system ynni sero net yng Ngwynedd erbyn 2050 yn dibynnu'n fawr ar ewyllys wleidyddol ar bob lefel, cymorth ariannol sylweddol, cymorth technegol, newidiadau polisi, datblygu cadwyn gyflenwi, mynd i'r afael â bylchau sgiliau, a newid ymddygiad sylweddol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## 6 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

### Amcanion Llesiant

### 6.1 Cymru Lewyrchus

Drwy gael ffocws ar gynhyrchu a dosbarthu ynni yn lleol er budd cymunedau Gwynedd, fe ddylai’r CYAL arwain at gyfleoedd economaidd newydd, cryfhau a datblygu sgiliau newydd ymysg gweithlu lleol

### 6.2 Cymru Gydnerth

Bydd dadgarboneiddio’r system ynni lleol yn cyfrannu’n uniongyrchol at leihau allyriadau carbon a fydd yn ei dro yn lleihau effeithiau newid hinsawdd yn yr hirdymor. Bydd ymgorffori newidiadau fydd yn ystyriol ac yn gwarchod bioamrywiaeth hefyd o gymorth i addasu i newid hinsawdd.

### 6.3 Cymru Iachach

Bydd lleihau’r defnydd o danwydd ffosil wrth gynhyrchu ynni yn gwella ansawdd aer fydd yn ei dro o gymorth i warchod iechyd trigolion.

### 6.4 Cymru sy’n Fwy Cyfartal

Un o nodau’r CYAL yw cynhyrchu ynni fydd yn fforddiadwy i drigolion lleol, er mwyn lleihau tlodi tanwydd.

### 6.5 Cymru o Gymunedau Cydlynus

Mae’r CYAL yn ceisio cryfhau’r rhwydwaith o drafnidiaeth preifat a chyhoeddus sy’n gynaliadwy a llesol, a hynny er budd trigolion sy’n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd.

### 6.6 Cymru â Diwylliant Bywiog Ble Mae’r Gymraeg yn Ffynnu

Mae’r CYAL yn annog dulliau llesol o deithio (ee. cerdded, beicio) er mwyn lleihau’r galw am drafnidiaeth sy’n defnyddio tanwydd ffosil.

### 6.7 Cymru sy’n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang

Bydd dadgarboneiddio’r system ynni lleol yn cyfrannu’n uniongyrchol at leihau allyriadau carbon er mwyn cyrraedd targedau newid hinsawdd Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a thargedau rhyngwladol (ee. Cytundeb Paris).

**5 Ffordd o Weithio**

6.8 **Hirdymor**

Mae rhai o'r Camau Gweithredu ac Argymhellion yn y CYAL wedi eu rhaglennu i'w gwireddu yn y tymor byr neu ganolig, ond mae'r rhan fwyaf yn gamau y bydd angen parhau i'w gweithredu yn y tymor hir. Mae hyn er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru i Gymru fod yn wlad sero net erbyn 2050.

6.9 **Atal**

Bwriad dadgarboneiddio'r system ynni yw atal effeithiau newid hinsawdd rhag gwaethygu i'r dyfodol.

6.10 **Integreiddio**

Mae nod a gweledigaeth y CYAL yn gyson â nifer fawr o bolisïau a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol fel ag y gwelir yn ffigurau 15 ac 16 ym mhennod 2 o'r Prif Adroddiad.

6.11 **Cydweithio**

Cafodd y CYAL ei ddatblygu ar y cyd â 74 o unigolion o 22 sefydliadau oedd â gwybodaeth am y maes neu sy'n cael eu heffeithio gan wireddu'r cynllun.

6.12 **Cynnwys**

Gweler 'Cydweithio' uchod.

**7 Camau nesaf ac amserlen**

7.1 Yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet, byddwn yn symud ymlaen i:

- Sefydlu cyfundrefn monitro a llywodraethu fel y disgrifir yn 5.1
- Gweithredu ar y Camau Gweithredu ac Argymhellion sy'n gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd yn unig ble nad oes angen adnoddau ychwanegol
- Cychwyn trafodaethau gyda phartneriaid er mwyn gwireddu'r Camau Gweithredu sy'n gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd ar y cyd ag eraill, a ble nad oes angen adnoddau ychwanegol
- Pwyso ar Lywodraeth Cymru ac eraill am adnoddau ychwanegol er mwyn gwireddu'r rhan helaethaf o'r CYAL, ac i'r gwaith yma gael ei wneud ar y cyd â phartneriaid lleol a rhanbarthol.

---

**8 Atodiadau**

Atodiad 1 – Cynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd
Atodiad 2 – Cynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd: Adroddiad Technegol

---

**9 Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae’r adroddiad yn gosod allan y project arfaethedig a’r cyd destun cyflogaeth mewn modd priodol.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir o gefnogi prif adroddiad ac adroddiad technegol Cynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd, gan fod y penderfyniad yn amodol ar sicrhau a chynnal y cyllid angenrheidiol. Mae’r Cynllun yn nodi rhai o’r ffynonellau ariannu allai fod ar gael er mwyn datblygu cynlluniau unigol, ond mae gwaith sylweddol pellach i’w wneud cyn bydd Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa i allu ymrwymo adnoddau i weithredu’r Cynllun Ynni Ardal Leol.

Rwyf yn cefnogi’r bwriad i ddatblygu mecanwaith llywodraethu a monitro ar gyfer y camau gweithredu ac argymhellion.